

144  
CAN NEWYDD,

YN RHODDI HANES

Y MODD DYCHRYNLLYD

Y TANIODD Y DAMP,

YN NGWAITH GLO DINAS Y CYMER,

*Gerllaw Pontypridd,*

**Ele ca'dd Deuddeg o Golliers eu Diwedd,**

AC AMRYW ERAILL EU CLWYFO,

*Ar Ddydd Llun, y 1af o Ionawr, 1844.*

Enwau ac Oedran y rhai a ga'dd eu diwedd.

*Thomas Rowlands 51, a'i ddau fab, John Rowland 14,  
David Rowland 9. Gadawodd wraig a phedwar o blant.  
Thomas Morris 48, a'i ddau fab, William Morris 17,  
Lewis Morris 12. Gadawodd wraig a thri o blant.  
David Job 33. Gadawodd wraig a thri o blant.  
William Harri 20.  
David Phillip 22.  
Edward Powell 21.  
Thomas Leyshon 17.  
David Morgan 14.*

Cenir ar "Bryniau'r Iwerddon."

1.

Neshewch y Cymry mwynion trwy'r De a'r Gogledd dir,  
I wrando trist alarnad sydd ganiad lawn o gur,  
Yn awr er poen a thralod trwy'r ardal llynod hon  
Er loes i galon dyner, a braw i lawer bron.

2

2.

Trwm newydd sydd yn tramwy yn nechre'r flwyddyn hon,  
Mae llawer iawn mewn galar—Morganwg oll o'r bron :  
Rhyw erchyll boen a thralod sy'n dyfod nos a dydd ;  
Trwy Bontypridd a'r Dainas mae pawb a'u bron yn brudd.

3.

Er hyn mae trefn rhagluniaeth uwchlaw pob deall dyn,  
Am ddyben doeth damweinia' ni wyr ond Daw ei hun ;  
Er bod hwy weithiau'n chwerwedd a thrymedd yma a thraw,  
Yr Arglwydd sy'n teyrnasu, mae'r cyfan yn ei law.

4.

Ow! ow! hen angeu ingol echryslon boen a chri,  
Ca'dd lawer brofi archoll oer ddyrnod genyt ti ;  
Rhoist faith esgoriaeth buan, hyl brofiad llawer bron,  
Chwanegaist at ein poenau yn nechre'u'r flwyddyn hon.

5.

Sef mil wyth cant o flwyddi, chwe saith mlwydd gyda dwy,  
Oedd oedran Crist yr Arglwydd, ca'dd deuddeg farwol  
glwy ;  
Dydd Llun y cynta' o Ionawr, er galar dirfawr bwys,  
Aeth rhai'n i'w gwaith yn gywrain, fel *Colliers* dewrion  
dwys.

6.

Ond erbyn myned yno, er galar traethu 'rwyf,  
Y *Damp* yn fuan daniodd—i lawer rhoddodd glwyf ;  
Y tân yn gwau trwy'r celloedd, aruthrol drwg ei hynt,  
Gan chwythu glo yn ddarnau ac attal ffordd y gwynt.

7.

Fe glywyd twrf dychrynlyd gan bawb dros bellder maith,  
Arswydus oedd yr olwg wrth edrych tua'r gwaith ;  
Sgrechfeydd y gwragedd ydoedd yn adsain trwy'r holl gwm,  
'Roedd pawb mewn aeth a thristwech a'u calon fel y plwm.

8.

Ar ol i'r tân ehedeg, y *sulphur* codi wnaeth,  
A deuddeg o eneidiau a ddaliwyd yno'n gaeth ;  
Gwnaeth rhai'n eu dirfawr ymdrech i ddianc maes i gyd,  
Ond Brenin Dychryniadau ddaeth atynt yn ei lid.

3.

9.

Caw'd llawer iawn o honynt yn gorwedd yn 'r un man :  
O ! olwg (pwy all draethu) arswydus ddaeth i'w rhan ;  
Y plant yn wylo dagrau ger bron y tadan'n llu,  
A phawb yn ngafael angau,—pwy draetha fel y bu ?

10.

Fe losgodd rhai o honynt yn nghanol fflamiau tân,  
A'r lleill yn mogi fyny a chwedi *altro*'u grân,  
Yn ddeuddeg celain farwol o dan y ddaear ddu :  
Pwy galon sydd na thodda wrth glywed fel y bu ?

11.

Yr olwg gafwyd arnynt yn nghelloedd daear lawr,  
Fu'n agos a llewygu y rhai sy'n fyw yn awr ;  
Un rhyfedd yw rhagluniaeth, neu olwyn arfaeth Duw,  
Trwy dân a mogi hefyd mae'n symud dynolryw.

12.

Y gwŷr y borau hwnw yn gado'u gwragedd mwyn,  
Ychydig a feddyliwyd f'ai angeu yn eu dwyn ;  
A gadael gwych rieni wnaeth dirion feibion dwys :  
Maent oll yn gwybod heddyw fod angau'n beth o bwys.

13.

Ond cyn y nos er dychryn cyfarfu rhai a loes,  
'Roedd llawer yn gyrff marwol a therfyn ar eu hoes,  
A rhai ag esgyrn briwlyd, a da cael bod yn fyw :  
Ansicr ydyw'n hamser, 'does neb a'i gŵyr ond Duw.

14.

Y chweched dydd o Ionawr y cawd en cyrff i gyd,  
Ac yn y dyddiau hyny 'r awd i'r trag'wyddol fyd ;  
'Roedd ysgrechfeydd feddyliaf o fewn y *level* ló  
Pan yn rhyfela 'g angau—pwy ddyn anghesia'r tro ?

15.

Pwy ddyn all ddirnad meddwl rhai ddaeth i'r lan yn fyw,  
Am gael y waredigaeth trwy ddoeth drugaredd Duw ;  
'Rwyf fel pe bawn yn meddwl fy mod yn clywed llef,  
“ 'Rwy'n diolch am fy mywyd i. Awdwr da'r a nef.”

16.

'Does dim ond tristwch calon trwy'r Dinas Cymar gu,  
Och'neidio dwys ac achwyn a glywaf yn mhob ty ;

Y wraig ar ol ei phriod sy'n llefain yn ddiwad,  
A'r plant yn dorcalonus gwnant ofyn am eu tad.

17.

Mae yno wragedd gweddwon a'u calon dan eu cur,  
Mewn galar mawr ac alaeth, a hiraeth dyddiau hir;  
Rhydd wiwlon blant amddifaid ochenaid oer a chwyn,  
Mae'u mamau'n drwm eu calon ar ol eu meibion mwyn.

18.

'Roedd tri o'r dynion diwyd ga'dd ddyrnod angau du  
Yn berchen gwragedd gweddaidd, rhai llonwedd yn mhob  
llu;

Gadawsant blant amddifaid yn ddigon oer eu cwyn,  
Yn gyflym gwelsant golled ar ol eu tadau mwyn.

19.

Aeth naw o fechgyn ifaine i'r trag'wyddoldeb mawr,  
Yn mlodau 'u dyddiau diddan y torwyd hwynt i lawr;  
Mae tadau rhai'n a'u mamau bob dydd mewn galar dwys,  
A'u brodyr a'u chwiorydd mewn hiraeth pena' pwys.

20.

'Does neb all ddirnad cyflwr y gwragedd mwynion mad,  
Eu mheddwl am eu priod a'r plant ar ol eu tad;  
Ond Duw a fyddo'n gysur i'r weddw ag i'r tlawd,  
Ac hefyd i'r amddifaid fe fydd yn dad a brawd.

21.

Boed Duw i bawb o dylwyth y meirwon oll i gyd  
Yn brysur amddiffynydd tra ho'nt yn hyn o fyd,  
A dysga hwynt i' th foli, a hyn heb unrhyw boen,  
'Nol hyny hwy ga'nt ganu, Hosana byth i'r Oen.

22.

O byddyn bawb yn barod pan ddel y ddyrnod ddwys,  
Pryd hyn bydd rhaid i minnau fyn'd dan y geufedd gwys;  
Ansicr ydyw'n hamser, 'mofynwn Grist yn ben,  
Ac yno ni gawn foli yr Argwydd byth. Amen.

Richard Hughes, a'i cant.